

**TAIR OED.**

Rydym yn dair blwydd oed ond rydyn ni'n dal yn hwyr. Pob mis rydym yn meddwl fod popeth yn barod ar gyfer argraffu ar y cyntaf o'r mis ond wedyn mae nifer o bethau yn codi i achosi i'r cyhoeddi fod yn hwyr ac unwaith eto dyma ni'n cyrraedd ar ganol y mis. Un o'r problemau yw fod erthyglau yn cyrraedd y funud olaf neu ddim o gwbl ac felly rydym yn dal yn ôl rhag anfon at yr argraffwyr. Gawn ni yn garedig ofyn i'r holl gyfranwyr geisio sicrhau ein bod yn derbyn yr erthyglau mewn da bryd a hynny yn ddiffaer erbyn yr 20fed o bob mis.

Mae tair blynedd yn gyfnod sylweddol i bapur cymunedol sy'n cael ei gynhyrchu gan wirfoddolwyr ond rydym yn gwbl ddibynol ar gyfraniadau unigolion, erthyglau, lluniau ac eitemau ar gyfer y dyddiadur. Gofynnodd nifer o bobl ynglyn â'r symbol doniol oedd ar dop y rhifyn diwethaf. Wel dyma logo y cynllun 'Gwobrau i Gymru Gyfan'. Y mudiad yma roddodd y nawdd i ni ar gyfer y camera, cyfrifiadur, meddalwedd a'r argraffydd ar gyfer y cyrsiau hyfforddi.

Bydd 'Bash y Bont' yn cymryd lle unwaith eto ar Hydref 21ain ac fe hoffem atgoffa pawb na ellir defnyddio arian y nawdd i dalu am gynnal Y Bont felly mae gwir angen eich cefnogaeth. Bydd cyflwyniad ffurfiol o siec y nawdd yn ystod Y Bash eleni. Fel cofnod o'r dyddiau cynnar hynny rydym wedi adgynhyrchu copi o'r rhifyn cyntaf hanesyddol hwnnw.

Fe gawn ddathlu dychweliad 'Bwtias a Berfa' y mis nesaf ac rydym wedi cael addewid o lond trol o hanesion.

**GLYNDWR TERRACE**

Mae'n braf gweld fod to y tŷ pen erbyn hyn wedi cael ei ail doi a'r waliau wedi eu paentio. Gallwn gymryd yn ganiataol felly fod y bygythiad o ddymchwel ty, a fyddai yn ardderchog ar gyfer cartref cyntaf, wedi cael ei anghofio. Fodd bynnag mae tomen o arwyddion 'Ar Werth' wedi ymddangos o gwmpas y pentref gan gynnwys y cyfle ar gyfer adeiladu tŷ newydd!

**COFEB RHYFEL CARROG**

Derbyniodd Bwyllgor y Neuadd Bentref lythyr gan Gyngor Bro Corwen yn trafod adleoli y gofeb o'r man presenol sydd ar dir preifat i safle cyfagos i'r neuadd bentref.

Bydd trafodaeth ynglyn â hyn ar agenda Pwyllgor y Neuadd Dydd Llun Tachwedd y 6ed am 7.30. Gofynnir i unrhyw aelod o'r gymuned sydd a sylwadau ynglyn â'r bwriad yma i ddod i'r cyfarfod.

**CWRS PHOTOGRAFFIAETH.**

Mae rhan cyntaf y cwrs bellach wedi ei gwblhau ac mae pawb sydd wedi ei ddilyn wedi mwynhau yn fawr ac yn llawn edmygedd o'r hyfforddwr.

Bydd yr ail ran yn cychwyn Dydd Sadwrn Hydref 21 am 10.00 o'r gloch ac mae cyfle i chi ymuno os y dymunwch. Gawn ni atgoffa pawb unwaith eto oherwydd gwerth y camera mae'n rhaid i bawb sydd yn dymuno ei ddefnyddio fod wedi derbyn yr hyfforddiant hwn.

**THOMAS HUTTON – Y PARCHEDIG**

Hwyrach y cofiwch i ni derbyn llythyr sawl mis yn ôl bellach yn holi ynglyn â'r gofeb i Thomas Hutton sydd wedi ei gosod yn y wal ar y ffordd gefn i Gorwen. Doeddem ni ddim yn ymwybodol ar y pryd bod bedd Thomas Hutton, a fu farw mewn lluwch eira, tra'n ceisio cerdded i Gorwen i gael cymorth meddygol i'w fab, wedi ei lleoli yn Llansanfraid. Mae geiriad a gwneuthuriad y garreg yn union yr un fath yn y ddau leoliad.

**BASH Y BONT**

Bydd y Bash yn cael ei gynnal Nos Sadwrn Hydref 21 am 8.00 o'r gloch yn y Neuadd. Eleni fe fydd y band lleol RUBYSPROMISE sydd yn tyfu mewn poblogrwydd yn dilyn rhyddhau un albwm ac maent ar fin recordio albwm arall. Gallwch eu gweld a'u clywed ar eu gwefan www.rubyspromise.com. Bydd tocynnau yn £5 yn cynnwys swper. Bydd y bar ar agor ac fe fydd cyflwyniad swyddogol o'r siec nawdd gan Gwobrau i Gymru gyfan. Gwnewch eich gorau i fod yn bresenol gan mai'r arian yma ynghyd â hysbysebion sydd ond yn cadw pileri'r 'Bont' uwchben y dwr.

**CROESO**

Gobeithio bod Dawn, Paul, Amber a Pagan Boydell yn ymgartrefu ym Mronant.

Estynnir gwahoddiad cynnes hefyd i bump o'r teulu Lama sydd bellach wedi ymgartrefu yn Nhy'n Llwyn. Diolch nad yw eu meistir tir wedi eu gadael yn rhydd yn y pentref hyd yma!

## YSGOL CARROG

Croeso cynnes i Lowri, Eleri a Rhian sydd wedi dod atom y tymor hwn o ysgol Pentrecelyn.

Mae plant y Feithrinfa Cara, Jacob, Thomas, Caolan, Amber, Rhian Haf a Morgan i gyd yn mwynhau eu cyfnodau boreol yn yr ysgol.

Enillodd yr ysgol gystadleuaeth gelf ym Mhafiliwn Llangollen am y bedwaredd tro gyda Poppy, Barra, Sioned ac Alice yn ennill gwobrau unigol. Fe ddefnyddir y wobr o £100, a gafodd ei chyflwyno gan Westy'r Wild Phesant, Llangollen ar gyfer cyfraniad yr ysgol orau, i brynu adnodau celf i'r ysgol. Fe fydd yr holl waith Celf Awstraliaidd a gynhyrnodd y plant yn cael ei arddangos yn Neuadd Carrog Dydd Mawrth Hydref 17 am 3.30p.m.

Mwynhaodd holl ddisgyblion Cam Allweddol 2 eu taith i Wyl Gerdd Llanellwyl i wrando ar ddatganiad Evelyn Glenzie. Roedd yn chwarae pob math o offer taro o ddrwm i ffôn ddŵr.

## RHAI DIARHEBION CYMRAEG.

Unwaith yn ddyn, dwywaith yn blentyn  
Once a man, twice a child

Haws twyllo maban na gwrachan  
A boy is easier cheated than a witch

Cadw ci a chyfarth ei hun  
Keep a dog and bark yourself

Gwyn ei fyd  
Blessed his world (in his element)

## DYDDIADUR

Hydref 10 Dydd Mawrth – Beetle Drive am 6.30 yn Ysgol Carrog

Hydref 13 Gwener Cynger Côt Merched Edeyrnion yn Llansanffraid. Tocynnau £4

Hydref 16 Dydd Llun- Gwasanaeth Diolch garwch Ysgol Carrog yng Nghapel Seion.

Hydref 17 Dydd Mawrth Arddangosfa Gelf Ysgol Carrog yn y Neuadd am 3.30p.m. Mynediad £1

Hydref 18 – Gwasanaeth Diolchgarwch am 2.15 yn yr Eglwys.

Hydref 21 Dydd Sadwrn – Cwrs Photograffiaeth yn y Neuadd am 10.00 o'r gloch

Hydref 21 Dydd Sadwrn – 8.00 'Bash y Bont' Tocyn £5 yn cynnwys adloniant, swper a bar hwyr

Hydref 23 Dydd Llun – Noson 'Body Shop' yn y neuadd am 7.30.

Hydref 26 Yr ysgol yn cau dros hanner tymor. Yn ail agor Tachwedd y 6ed.

## LLONGYFARCHIADAU

Marchog yn Nhy'r Arglwyddi.

Bu Jane Knight (Marchog!) mewn derbyneb yn Nhy'r Arglwyddi ar y 14eg o Fedi i ddathlu ail-gyhoeddiad o'i llyfr 'Reach Standards'

Llongyfarchiadau hefyd i Heather Scott ar lwyddo yn ei arholiadau i gymhwyso ei hun ar gyfer bod yn Ysgrifenyddes Feddygol.

## YN CAEL EICH TRETH CYNGOR YN DDRUD?

Wel, dydy llawer o bobl Cymru ddim, achos dydyn nhw ddim yn talu! Yn Nghymru mae 30,459,000 o drethi 2004/2005 heb eu casglu a 29,523,000 ar gyfer 2005/2006. Yn Sir Ddinbych mae'r symiau yn £824,000 ar gyfer 2004/05 a £776,000 ar gyfer 2005/06. Mae'n ymddangos fod Sir Ddinbych yn llawer gwell na nifer o siroedd eraill wrth sicrhau eu bod yn derbyn y taliadau. Gellir gweld y ffigurau ar gyfer y cyfan o Gymru ar y wefan: <http://www.gmb.org.uk/templates/PressItems.asp?NodeID=94546> Ymddiheurwn am y cyfeiriad hir. Wedi cyrraedd y safle fe gewch y dewis i sgrilio i lawr ac yna dewis yr opsiwn 'cliciwch yma i weld manylion perthnasol i Gymru'.



# Y



# Bont

Argraffiad un

Hydref 2003

Croeso i'r rhifyn cyntaf o "Y Bont." Dewiswyd yr enw fel symbol i uno Carrog a Llidiart Y Parc, ac fel Pont dwy-ieithog. Mae'r daflen newyddion hon yn rhad ac am ddim, ac yn ymgeisio i ddarparu crynodeb o newyddion i'r ddau gymuned, a rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau. Cyn belled ac y gwyddwn, nid yw taflen o'i fath wedi cael ei chynhyrchu o'r blaen, a gobeithiwn fydd ei gynhyrchiad yn cadw mewn cysylltiad gwell hefo'r digwyddiadau yn ein cymuned. Os oes gennych eitemau neu syniadau yr hoffech gael ei argraffu mewn rhifynnau yn y dyfodol, (neu os dymunwch helpu!) cysylltwch a ni yn union os gwelwch yn dda. Ein bwriad yw i gynhyrchu "Y Bont" yn yr wythnos gyntaf o bob mis, a gofynwn am eitemau erbyn y 22fed o'r mis blaenorol. Croeshawn llythyrau, ond cadwch nhw yn fur os gwelwch yn dda.

Os teimlwch fod unrhyw beth wedi cael ei adael allan a ddyled fod wedi ei gynwys, maddeuwch i ni a, rhowch wybod i ni cyn y rhifyn nesaf.

Cyhoeddwyd a golygwyd gan Ian Lebbon, Paul Fisher, Colin Roberts.

### Neuadd.

Gofynnwyd i'r Pensaer gyfarfod ar adeiladwyr ar fater o anghenrhaid, i sicrhau fod y system gwresogi wedi cael ei orchymu yn iawn, er mwyn osgoi problemau'r gaef diwethaf. Mae'r matter yma yn bwysig iawn oherwydd bod y neuadd yn cael ei defnyddio yn fwyfwy o hyd.

Cytynodd y pwyllgor i ddechrau apel mawr yn yr hydref i sicrhau incwm barhaol i dalu am y gost flynyddol o gynnal y neuadd. Gall unrhyw un gefnogi'r apel yma, naill a'igyda cyfamod, sbonsor, neu danysgrifiad ir Clwb 100 newydd.

Diolch i Mrs R.D.Jones am fore goffi llwyddianus unwaith eto. Codwyd £140 at achosion y neuadd.

### Ysgol Carrog

Ar ddechrau'r tymor newydd croesawyd tri disgybl newydd llawn amser; Abbie, Charlotte & Pagan, a 6 disgybl newydd ir dosbarth meithrin; Barra, Harry, Bryn, Imogen, Julian a Sam.

Yn ystod cyngerdd, ar diwedd tymor yr haf, cafodd chwech o ddisgyblion o flwyddyn chwech, sef Sammy, Jenny, Tilly, Portia, Stewart, William, Mikey, Johnathan a Bryony eicyflwyno geiriadur ac eu llonyfarch ar ganlyniadau rhagorol yn y tasau. Gobeithiwn y byddant yn llwyddianus yn ei hysgolion newydd.

Mwynhaodd y plant cynradd ymweliad a'r Pafiliwn yn Llangollen i glywed y "Mungenkyo Taiko Japanese Drummers"

Cymerodd y plant i gyd ran yn y cyfarfod diolchgarwch yn yr eglwys, ac fe gasglwyd £50 at achos y "Macmillan Nurses."

### Llongyfarchiadau

A phob lwc i holl bobl ifanc yr ardal sydd wedi symud i ddilyn cyrsiau mewn addysg bellach ac uwch, yn bell, ac yn agos i'r ardal.

I Joseph Culshaw ar gael ei ddewis i ymuno a'r academi pel droed i blant dan 11 yn Wreccsam.

### Efeillio

Dros y 4 blynedd diwethaf fe fydd grwp dawnsio gwerin o Llydaw yn aros gyda teuluoedd yn y cymuned, er mwyn cymryd rhan yn Eisteddfod Gerddorol, Llangollen. Fel canlyniad o hyn, teithiodd 9 o drigolion y cymuned i Plouye yn Llydaw ar ddiwedd Awst. Pwrpas hyn oedd i ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud y trefnient efeillio yn swyddogol. Roedd yr ymweliad yn llwyddianus ac fe fydd cyfarfod agored yn y dyfodol agos i ffurfio pwyllgor efeillio swyddogol.

### Saethu Clai

Aeth 2 dim o'r Grouse i gymryd rhan mewn cystadleuaeth saethu 100 aderyn, wedi ei drefnu gan y Berwyn Arms yn Llandegla. Cafodd "Grouse A" drydydd lle allan o saith mewn tywydd oedd yn gynnwys mell t a tharannau, cenllysg, glaw a heulwen glir. Fe fydd yr un tim yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth arall i godi pres at achos Hope House yn ystod mis Tachwedd.

### Cymdeithas Carrog

Cynhalwyd helfa drysor yn mis Medi, wedi ei drefnu gan Edwin ac Erian Ty Mawr. Criw y car ag enillod oedd Nick, Bethan, Megan ac Iwan. Dilynodd swper yn y "Plough" Llandegla ar ddiwedd y noson.

### Eglwys St Ffraid

Mae'n dda gael cofnodi fod y rhan fwyaf o'r gwaith adnewyddu wedi gael ei gwblhau. Mae'r eglwys dal rhiwfaint yn fur o'r cyfanswm sydd angen i dalu am yr holl waith, ond hoffwn ddiolch i bawb a gyfranodd at achos "cymorth rhodd." Codwyd dros mil o bunnoedd gan pobl y cymuned at yr achos yma.

Daeth llawer iawn o bobl i'r gwasanaeth diolchgarwch ac ail gysegriad ar y diwrnod olaf o Hydref, i groesawu yr Esgob y Parchedig John Davies ac i wrando arno yn pregethu.

Roedd pawb a oedd yn bresennol wedi ei plesio efo ymddangosiad y tu mewn a oedd wedi ei arddurno gyda blodau, llysiau a ffrwythau, ac wedi ei oleuo gyda canwyllau a goleuadau newydd wedi ei gosod yn y to.

### Pwyllgor Carnifal

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfranodd chymorth a cyfraniadau i ffair yr haf. Wedi taliadau codwyd £600 ar y diwrnod. Mae hyn i'w chael ei dosparthu fel y ganlyn: Ysgol Carrog £100, Neuadd £100, Eglwys Carrog £100, Clwb Dros Trigain £100, Capeli Methodist a Bedyddwyr £50 yr un. Fe fydd £100 yn cael ei chadw at gynnal y ffair flwyddyn nesaf.

Cofiwch y mwy maer ffair yn cael ei gefnogi, y mwy o arian gallwn ei rhoi yn ol ir cymuned.

**A. W. Dolben**  
**Parc Service Station**  
**Mechanical and Body Repairs**  
**01490 430 380**